

Where can I drive? (Cymraeg)

Iawn! Rydych wedi prynu'r 4x4, y beic gwlad neu'r beic cwad ac mae gyda chi'r offer i gyd –

...Felly i ble rydych chi am fynd?

I'r darn hwnnw o rostir lle mae pawb yn mynd oddi ar y ffordd, er bod arwyddion yn dweud 'tir preifat - dim cerbydau'? Neu beth am yr hen reilffordd, neu'r rhwydwaith lleol o lwybrau troed neu lwybrau ceffyl? Gan bwyll! Os byddwch chi'n gyrru yn unrhyw un o'r llefydd hyn, a llawer o lefydd eraill, byddwch chi'n torri'r gyfraith, o bosib yn achosi difrod amgylcheddol a gallai eich car, beic cwad neu feic modur gael ei atafaelu gan yr heddlu. Peidiwch â gwrando ar y boi sy'n dweud 'Mae'n iawn - mae pawb yn ei wneud e!' Yn y bôn mae'r gyfraith ynghylch lle cewch a lle na chewch chi yrru wedi ei seilio ar ychydig o egwyddorion syml: Gallwch chi yrru ar ffordd cyhoeddus (dim ond Cilffyrdd Agored i Bob Traffig sydd â hawliau cerbydol pendant), ond rhaid talu sylw i holl reolau'r ffordd - pethau fel treth cerbyd, yswiriant, helmedau, MoT, trwydded gyrru, arwyddion dim mynediad, ayb. Cofiwch fod cilffyrdd a ffyrdd gwledig di-ddosbarth yn briffyrdd cyhoeddus er efallai nad oes tarmac arnynt - mewn gwirionedd dydych chi ddim yn "mynd oddi ar y ffordd" wrth yrru arnynt. Gallwch chi ddim gyrru ar lwybr troed cyhoeddus, llwybr ceffyl, trac seiclo neu gilffordd gyfyngedig. Mae'r gyfraith ynghylch hyn wedi mynd yn gymhleth iawn, felly'r cyngor gorau yw 'os nad ydych yn siur - peidiwch'. Gallwch chi ddim gyrru ar unrhyw dir, rhostir, coedwig, tir comin, parciau gwledig, tir diffaith, hen reilffyrdd, ayb., oni bai eich bod chi wedi cael caniatâd perchennog y tir. Mae cerbydau modur yn cynnwys beiciau, beiciau cwad, beiciau plant, bygiau, certi, ayb., ac mae'r rhain nawr yn dod dan gyfraith traffig y ffyrdd.

Mewn mannau cyhoeddus agored rhaid i bob cerbyd fod yn gyfreithlon ar gyfer y ffordd.

Felly – i ble y gallwch chi fynd?

Os nad ydych yn ddigon ffodus i fod yn berchen ar eich tir eich hun, mae'n bosib mae'r ateb fyddai dod o hyd i safle masnachol ar gyfer chwaraeon modur, canolfan "talw a chwarae" oddi ar y ffordd, neu ymuno â chlwb cyfrifol sy'n arbenigo mewn gweithgareddau oddi ar y ffordd. Gall sefydliadau ar gyfer defnyddwyr, fel y rhai a restrir isod, roi cyngor i aelodau ynghylch defnyddio hawliau tramwy cyhoeddus fel cilffyrdd a ffyrdd heb wyneb. Mae mapiau Arolwg Ordans yn ganllawiau defnyddiol, ond dydyn nhw ddim yn rhoi'r holl wybodaeth gyfreithiol ynghylch hawliau tramwy cyhoeddus a llwybrau eraill o ran ble y gallwch chi yrru. Os ydych chi'n dymuno mynd i grwydro ar eich pen eich hun, edrychwch ar "Hawliau Tramwy Cyhoeddus" ar yr esboniad i'ch map. Byddwch wrth gwrs yn gweld llwybrau troed a llwybrau ceffyl na fyddwch yn gallu gyrru arnynt. Byddwch hefyd yn gweld Ffyrdd a Ddefnyddir fel Llwybrau Cyhoeddus (RUPPS - Roads Used as Public Paths) sydd newydd gael eu hailddosbarthu'n Gilffyrdd Cyfyngedig, nid yw'r rhain ar gyfer cerbydau a dylech chi ddim gyrru arnynt. Nesaf byddwch yn gweld Cilffyrdd sydd ar Agor i Unrhyw Draffig (BOATS - Byways Open to All Traffic), sy'n aml yn cael eu galw'n gilffyrdd. Gellir gyrru ar y rhain os nad oes Gorchymyn Rheoleiddio Traffig (TRO - Traffic Regulation Order). Dylai'r rhain fod wedi eu nodi â saethau coch ond yn aml mae'r rhain ar goll. Yn olaf, byddwch yn gweld "Llwybrau Eraill â Mynediad Cyhoeddus" (ORPA - Other Routes with Public Access). Smotiau gwyrdd yw'r rhain at fapiau 25,000 Explorer a smotiau coch ar fapiau 50,000 Landranger. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa gyfreithiol yn gymhleth ac felly nid yw'r mwyafrif o Awdurdodau Priffyrdd yn gallu cadarnhau bod modd i gerbydau eu defnyddio. Os nad ydych yn siur, y peth gorau yw eu hosgoi. Y cyngor gorau o hyd yw ymuno â grup defnyddwyr cyfrifol! Ffordd arall o ddarganfod ble y gallwch yrru yw drwy ddarllen cyhoeddiadau modura arbenigol. Byddwch yn gweld hysbysebion ar gyfer safleoedd "talw a chwarae" neu safleoedd ymarfer. Gallwch fynd i'r safleoedd hyn i gynyddu eich sgiliau, felly wrth ffonio esboniwch lefel eich gallu, gofynnwch gwestiynau, a phenderfynwch a ydych yn hapus gyda'r hyn sy'n cael ei gynnis.

Felly beth yw canlyniadau gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd?

Mae'r sun a'r difrod y mae gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd yn ei achosi yn creu drwgdeimlad gan y cyhoedd tuag at feiciau modur a cherbydau 4x4. Gall eich cerbyd gael ei atafaelu ac o bosib ei wasgu yn dilyn erlyniad.